Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Gofynnwch am: Safonau Cwynion
01656 641150
Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 17 Medi 2026

Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

Drwy ebost yn unig
cynghorydd.niajeffreys@gwynedd.llyw.cymru

Annwyl Gynghorydd Jeffreys

Llythyr Blynyddol 2025-26

Ein Rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rydym yn ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus yn annibynnol, ac yn ymchwilio i honiadau o dorri Cod Ymddygiad cynghorwyr. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer trin cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus, yn ysgogi dysgu parhaus o gwynion ac yn cynnal ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar ein liwt ein hunain.

Pwrpas y Llythyr Blynyddol hwn

Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar ein gwaith yn ystod y cyfnod yma, ac yn tynnu sylw at arferion allweddol yng nghwynion am lywodraeth leol Cymru. Mae'n nodi perfformiadau yn benodol i'ch sefydliad ac yn amlinellu'r camau gweithredu cadarnhaol yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd.

Trosolwg – blwyddyn o dorri recordiau

Mae'r llythyr hwn, fel bob un, yn cydfynd â'n cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol sydd ag arwyddocâd arbennig y flwyddyn hon wrth i ni nodi ein 20fed penblwydd. Gwnaethom gau ein blwyddyn brysuraf erioed lle derbyniodd y swyddfa 4,507 o gwynion dilys ar draws ei chylchoedd gwaith gwasanaethau cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad — 27% yn fwy na'r llynedd, 47% yn fwy nag oedd 3 mlynedd yn ôl, ac yn 3 gwaith cymaint ag 20 mlynedd yn ôl.

I gwrdd â'r galw hyn, gwnaethom gau nifer record o gwynion, 29% yn fwy na'r llynedd a 43% yn fwy o'i gymharu â 3 mlynedd yn ôl. Gwnaethom ymyrryd mewn 568 o'r cwynion a gaewyd.

ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Mae dod o hyd i ddatrysiad cyflym i gwynion, lle bo modd, yn parhau i fod yn bwysig i ni ac yn fuddiol i bob parti dan sylw. Eleni, roedd 85% o'n hymyriadau'n cynnwys elfen o Ddatrysiad Cynnar, proses rydyn ni'n gobeithio sydd wedi adlewyrchu'n werthfawr i'ch sefydliad ac i achwynwyr.

Er gwaethaf cynnydd yn y nifer o achosion, parhaodd ein hamseroedd trin achosion i fod yn effeithlon. Cwblhawyd asesiadau cychwynnol a Datrysiadau Cynnar o fewn 4 wythnos – ymhell o flaen ein targed o 6 wythnos. Yn ogystal, gwnaethom gynnal tuedd i lawr ar ein hamser ymchwilio cyfartalog o 54 wythnos eleni i lawr o 64 wythnos yn ystod 2023-24.

Trosolwg o gwynion Awdurdodau Lleol

Yn ystod 2025-26, cawsom 1,704 o gwynion am awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae hyn yn gynydd blynyddol o 27% a 67% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl.

Roedd mwyafrif y cwynion yma'n cyfeirio'n bennaf at dai, gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd ac iechyd amgylcheddol, trin cwynion a chynllunio.

Ar draws y sector, gwnaethom ymyrryd mewn 9% o gwynion awdurdodau lleol a gaewyd gennym – cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Perfformiad yn benodol i'ch Awdurdod

Yn ystod 2025-26 cawsom 47 o gwynion am eich Awdurdod a gwnaethom gau 49 o gwynion (gyda rhai cwynion wedi eu cario o'r flwyddyn flaenorol).

Gwnaethom ymyrryd yn 14% o gwynion a gaewyd am eich Awdurdod.

Gwnaethom 17 o arghymhellion newydd i'ch Awdurdod yn yr achosion a gaewyd gennym eleni.

Roedd yna 17 o argymhellion a oedd yn ddyledus yn ystod y cyfnod hwn. Cyflawnwyd 94 % o argymhellion oedd angen eu cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am gwynion am eich sefydliad a gafodd eu hymchwilio yn ystod y cyfnod hwn yr yr Atodiadau isod.

Gwella cydymffurfiaeth â'n hargymhellion

Rydyn ni bob tro'n cymryd ein hamser i sicrhau bod ein hargymhellion a'n hamserlenni'n cael ei gytuno gan gyrff cyhoeddus cyn eu cwblhau. Felly, rydym yn disgwyl i'r terfynau amser y cytunwyd arnynt gael eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid yw cydymffurfiaeth amserol mor uchel ag y dylai fod; a dim ond 69% o'n hargymhellion ledled Cymru y cydymffurfiwyd â nhw ar amser ar 31 Mawrth 2026. Mae cyflawni cytundebau'n brydlon i ddatrys anghyfiawnder neu galedi i unigolion a gweithredu dysgu systematig ar amser yn hanfodol i feithrin a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein swyddfa ac yn eich sefydliadau.

Rydym yn cydnabod bod heriau annisgwyl yn gallu codi sy'n gwneud hi'n anodd cwrdd â therfynau amser. Mewn ymateb i adborth gan gyrff cyhoeddus, rydym wedi addasu ein dull wrth symud ymlaen; os ydych yn gofyn am estyniad rhesymol ar neu gyn y dyddiad cau, ac rydych yn cwrdd â'r dyddiad newydd hwnnw, bydd yn cael ei gofnodi fel un sydd wedi'i gydymffurfio mewn pryd. Gobeithiwn fod hwn yn addasiad sydd wedi ei groesawu a fydd yn helpu i arddangos mwy o gyfraddau cydymffurfio cadarnhaol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Ein gwaith Cod Ymddygiad

Mae'n bwysig i ddemocratiaeth leol bod aelodau etholedig, a lle bo'n briodol aelodau cyfetholedig, yn cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb, atebolrwydd a pharch. Rydym yn cymryd ein dyletswydd i ymchwilio i honiadau o dorri Cod Ymddygiad cynghorwyr o ddifrif. Pan fyddwn yn ystyried, yn dilyn ymchwiliad, y gallai sancsiynau fel gwahardd neu anghymhwyso fod yn briodol ac er budd y cyhoedd, rydym yn cyfeirio'r achosion hyn at Bwyllgorau Safonau lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru.

Arhosodd cwynion Cod Ymddygiad yn gymharol sefydlog o'i gymharu â'r llynedd, gan wneud cynydd o 3%.

Roedd y mwyafrif (58%) yn ymwneud âg aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned.

Gwnaethom gau 85 o achosion a ymchwilwyd llynedd – cynydd sylweddol o'r llynedd gyda 15 achos yn cael eu cyfeirio at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn fe wnaethom leihau nifer yr ymchwiliadau hŷn yn ein llwyth achosion yn llwyddiannus ac yn sylweddol gyda dim ond 5 ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 25 ar 31 Mawrth 2025.

Mynd i'r afael ag ymddygiad amharchus, bwlio ac aflonyddu

Rwy'n parhau i fod yn bryderus am y nifer o honiadau o fwlio ac aflonyddu sy'n ymwneud â staff y cyngor. Eleni, gwnaethom gyfeirio sawl achos niweidiol iawn at Banel Dyfarnu Cymru, gan arwain at waharddiadau hir i rai cynghorwyr.

Nid oedd y rhain yn ddigwyddiadau ynysig. Byddwn yn parhau i gymryd cwynion o'r natur yma o ddifrif ac yn cymryd y camau priodol i flaenoriaethu'r achosion mwyaf difrifol rydym yn derbyn.

Hoffwn ddiolch i'ch Swyddog Monitro am ei ymgysylltiad proffesiynol gyda fy swyddfa yn ystod y cyfnod hwn.

Cefnogi gwelliant gwasanaethau cyhoeddus – themâu allweddol a'n gwaith ar ei liwt ei hun

Rydym yn parhau i ehangu defnydd ein pwerau ar ei liwt ei hun. Mae'r rhain yn ein galluogi i ymchwilio i faterion sy'n codi yn rhagweithiol, gan fynd i'r afael â methiannau gweinyddol cyn iddynt gynyddu.

Mae'r Senedd wedi ymddiried y pŵer i ni ymchwilio ar ein liwt ein hunain, ac mae hyn yn allweddol i ni fod y pŵer hwn yn darparu effaith gadarnhaol ar bobl Cymru.

Asesiadau anghenion gofalwyr yng Nghymru

Eleni, gwnaethom ddilyn i fyny ar gydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus gyda'n adroddiad a gyhoeddom yn flaenorol ar asesiadau anghenion gofalwyr. Mae ein hadroddiad dilynol yn nodi, er bod bob un o'r 4 awdurdod wedi cymryd camau cadarnhaol, bu rhaid i ni gyhoeddi argymhellion pellach i ddau awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol i gynnal eu ffocws ar sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn medru cael mynediad at wybodaeth, cyngor a'r cefnogaeth sydd eu angen i gynnal eu rolau hanfodol. Rwyf yn eich annog i ddarllen ein hadroddiad dilynol, os nad ydych eisoes wedi ar ein gwefan - yma.

Lletai Sipsiwn a Theithwyr

Fe wnaethon ni rannu canfyddiadau o'n hymchwiliad ar ei liwt ei hun ar letai Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd gyda'r holl awdurdodau lleol. Mae'r dysgu ledled y sector yn pwysleisio fod angen i'r holl gynghorau gymryd camau amserol pan mae'r galw am letai yn cynyddu i fwy na'r capasiti. Mae hyn yn lleihau amodau byw gwael sy'n gadael trigolion dan anfantais.

Cyflwr tai a'n hadroddiadau budd y cyhoedd

Pan mae adroddiad yn datgelu risigiau systematig difrifol sy'n gallu effeithio ar nifer o unigolion, neu gynnig gwersi i'r sector ehangach, rydym yn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

Gwnaethom gyhoeddi 9 adroddiad er budd y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y rhan fwyaf yn ymwneud â Byrddau Iechyd, mae 4 yn berthnasol i waith awdurdodau lleol (cyhoeddwyd 2 ar gyfer awdurdodau lleol a 2 ar gyfer Cymdeithasau Tai), yn ffocysu'n benodol ar breswylwyr sy'n byw mewn tai â chyflwr annerbyniol. Os nad ydych yn barod wedi gwneud, rwy'n eich annog i ddarllen yr adroddiadau hyn i gael eu mewnwelediadau gwerthfawr - yma.

Rwyf wedi datgan yn flaenorol bod lleithder, llwydni a diffyg atgyweirio heb eu datrys yn gallu achosi niwed a gofid difrifol, ac yn effeithio'n anghymesur ar denantiaid sy'n agored i niwed. Rwyf yn parhau i dynnu sylw yn flaenorol at y camweinyddu systematig, yr ymatebion hwyr, a'r cyfleoedd a gollwyd gan landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Mae'n destun pryder bod y materion hyn yn parhau i ddigwydd, ac yn parhau i fod yn faes allweddol yn ein gwaith pellach a pharhaus ar ei liwt ei hun.

Ymchwiliadau parhaus ar ei liwt ei hun

Ym mis Mawrth 2026, roedden ni'n cynnal 4 ymchwiliad ar ein liwt ein hunain pellach a oedd yn canolbwyntio, ymhlith pethau eraill, ar:

- Sut mae landlordiaid cymdeithasol yn delio a rheoli gydag adroddiadau a chwynion am ddiffyg atgyweirio a lleithder a llwydni.

- Methiannau mewn camweinyddu a gofal iechyd posib.

Rydym yn disgwyl cwblhau'r gwaith yma yn hwyrach yn ystod 2026, ac mi fyddwn yn penderfynu bryd hynny a yw'r canfyddiadau'n cyfiawnhau cyhoeddi er budd y cyhoedd.

Ein gwaith Safonau Cwynion

Erbyn diwedd Mawrth 2026, mae'r holl awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r 21 o gymdeithasau tai yng Nghymru yn gweithredu o dan ein polisi cwynion enghreifftiol. Yn ystod 2025-26, cychwynnom y broses pontio ar gyfer y cymdeithasau tai sy'n weddill, ac rydym yn disgwyl iddynt gydymffurfio yn llawn erbyn diwedd mis Medi 2026.

Mae'r sefydliadau sydd eisoes yn cydymffurfio, yn cyfrif am 85% o gwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus rydym yn eu derbyn.

Mae ein hyfforddiant trin cwynion sydd am ddim yn parhau i fod yn boblogaidd iawn; ac rydym wedi darparu 58 sesiwn arall i gyrff cyhoeddus ledled Cymru eleni gan ddod â'n cyfanswm ers 2020 i 600 sesiwn a 10,000 o gyfranogwyr.

Yn ehanghach, rydym yn disgwyl i gyhoeddi'r data ar gwynion a gafodd eu trin gan gymdeithasau tai yng Nghymru yn ystod 2024-25 a 2025-26 yn yr Hydref.

Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd

Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau o'r cyfnod hwn rwy'n gofyn bod eich sefydliad yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Cyflwyno'r Llythyr Blynyddol hwn i'r Bwrdd Llywodraethu neu'r Pwyllgor Archwilio ar y cyfle cynharaf ac i roi gwybod i mi am unrhyw ddyddiadau cyfarfodydd a gynlluniwyd.

- Adolygu'r data yn y llythyr hwn ynghyd â'ch data eich hun, er mwyn deall perfformiad eich cwynion yn well, i adnabod tueddiadau ac i adolygu'ch cydymffurfiad â'r argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Darllen yr adroddiadau a amlygwyd yn y llythyr hwn i dynnu gwersi perthnasol i'ch Awdurdod eich hun.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad eich ystyriaethau a'ch cynllun gweithredu arfaethedig ar y cyfle cyntaf.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am eich agoredrwydd parhaus a'ch ymgysylltiad â'm swyddfa. Mae ein data'n dangos bod awdurdodau lleol yn ymchwilio i mewn i fwy o gwynion nag erioed o'r blaen a bod canlyniadau gwell i Gymru'n cael ei gyflawni pan gaiff gwybodaeth o gwynion ei defnyddio'n llawn.

Yn gywir

Michelle Morris
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc. dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru
cwynion@gwynedd.llyw.cymru
iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru

Taflen Wybodaeth

Gerifa o dermau - canllaw i rai o'r termau a ddefnyddir yn ein Llythyrau Blynyddol a'n Atodiadau.

Mae **Atodiad A** yn dangos y nifer o gwynion a dderbyniwyd am yr holl awdurdodau lleol yn 2025-26. Mae'r cwynion hyn wedi'u rhoi mewn cyd-destun yn ôl poblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos nifer a chyfran o'r cwynion a dderbyniwyd yn ôl categori.

Mae **Atodiad C** yn dangos cyfraddau ymyrraeth am bob awdurdod lleol yn 2025-26. Caiff ymyrraeth ei chategoreiddio naill ai yn ôl cwyn a gadarnhawyd (naill ai er budd y cyhoedd neu beidio), datrysiad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad D** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaewyd gennym ar gyfer yr awdurdodau lleol yn 2025-2026. Mae'r tabl yn dangos cyfaint a chyfran y mae bob canlyniad yn ei gynrychioli ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad cydymffurfiaeth bob awdurdod lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion am y Cod Ymddygiad a gaewyd gennym ar gyfer awdurdodau lleol yn 2025-26. Mae'r tabl yn dangos cyfaint a chyfran y mae bob canlyniad yn ei gynrychioli ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gennym yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal yr awdurdod lleol yn 2025-26. Mae'r tabl hwn yn dangos y nifer a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

Llythyrau Blynyddol - Geirfa o dermau

Term	Diffiniad
Cwynion a gafwyd	Nifer y cwynion a wnaed yn briodol a dderbyniwn am Gorff Cyhoeddus.
Cwyn a wnaed yn briodol	Gwneir cwyn am wasanaethau cyhoeddus yn briodol pan: • mae'r sefydliad o fewn ein hawdurdodaeth a • mae'r sefydliad wedi ymateb neu wedi cael cyfle i ymateb a • mae'r digwyddiadau y cwynwyd amdanynt wedi cymryd lle llai na blwyddyn yn ôl, neu daeth yr achwynydd yn ymwybodol ohonynt lai na blwyddyn yn ôl (oni bai bod rheswm da pam na allai'r achwynydd gwyno'n gynt) a • mae gan yr achwynydd hawl i gyflwyno cwyn a • mae gennym y manylion sydd eu hangen arnom e.e. enw, manylion cyswllt, y sefydliad y cwynir amdano, gallwn ddeall y gŵyn. Gwneir cwyn am gynghorydd lleol yn briodol pan: • mae gennym y manylion sydd eu hangen arnom e.e. enw a manylion cyswllt yr achwynydd, enw'r cynghorydd a'r Awdurdod Lleol y maent yn aelod ohono • mae gennym ddatganiad wedi'i lofnodi gan yr achwynydd ac unrhyw drydydd partïon y mae eu tystiolaeth wedi'i chyflwyno.
Datrysiad Cynnar	Mater sy'n cael ei gau heb ymchwiliad oherwydd bod ateb amlwg a bod y corff yn cytuno i gymryd camau i ddatrys y mater. Rhaid i'r corff roi tystiolaeth i ni ei fod wedi cymryd camau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
Ymyriad	Achosion a gaewyd gennym ac rydym naill ai wedi: • Cadarnhau'r gŵyn ar ôl ymchwiliad. • Datrys y gŵyn drwy Setliad Gwirfoddol. • Datryswyd y gŵyn drwy Ddatrysiad Cynnar.
Setliad Gwirfoddol	Mater sydd wedi symud ymlaen i'r cam ymchwilio ond a gaewyd heb i'r ymchwiliad gael ei gwblhau oherwydd ein bod ni'n cytuno bod y camau y mae'r corff wedi awgrymu'n wirfoddol y bydd yn eu cymryd yn briodol i ddatrys y mater. Rhaid i'r corff roi tystiolaeth i ni ei fod wedi cymryd camau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Cadarnhau	Mater a gaewyd gennym ar ôl ymchwiliad a lle rydym wedi canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le.
% o ymyriadau	Nifer y cwynion gwasanaeth cyhoeddus a gaewyd gennym a oedd yn cynnwys Datrysiad Cynnar/Setliad Gwirfoddol a'r rhai a gadarnhawyd gennym yn dilyn ymchwiliad, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y cwynion gwasanaeth cyhoeddus a wnaed yn briodol a gaewyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd.
% a gadarnhawyd	Y gyfran o'r cwynion y gwnaethom ymyrryd ynddynt a gadarnhawyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd, a ddangosir fel canran.
Achosion wedi'u cau	Nifer y cwynion a gaewyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd. Gall hyn fod yn wahanol i'r nifer a dderbyniwyd gennym oherwydd efallai bod rhai cwynion a dderbyniwyd gennym yn y cyfnod adrodd blaenorol ond a gaewyd gennym yn y cyfnod adrodd hwn.
Argymhelliad	Dyma gamau gweithredu rydym yn gofyn i gyrff eu cymryd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt pan fyddwn yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le. Gall y rhain fod yn gamau gweithredu i helpu'r achwynydd unigol neu'n gamau gweithredu systemig i helpu i wella gwasanaethau i bob defnyddiwr gwasanaeth. Gallwn wneud argymhellion fel rhan o Ddatrysiad Cynnar, Setliad Gwirfoddol neu wrth gadarnhau cwyn yn dilyn ymchwiliad. Pan fyddwn yn gwneud argymhellion, rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i ni eu bod wedi cydymffurfio.
Argymhellion a wnaed	Nifer yr argymhellion a wnaethom i gyrff yn ystod y cyfnod adrodd. (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026)
Argymhellion sy'n dod i ben	Nifer yr argymhellion yr oedd angen cydymffurfio â nhw o fewn y cyfnod adrodd (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026). Bydd rhai argymhellion wedi'u gwneud yn y cyfnod adrodd blaenorol ond roeddent yn ddyledus o fewn y cyfnod adrodd hwn.
Cydymffurfiwyd â'r argymhellion yn unol â'r dyddiad targed y cytunwyd arno %	Nifer yr argymhellion y cydymffurfiwyd â nhw erbyn yr amserlen y cytunwyd arni fel y nodir yn yr adroddiad Datrysiad Cynnar, Setliad Gwirfoddol neu Ymchwiliad (yn berthnasol i'r rhai sy'n ddyledus yn 2025-26).

Poblogaeth	Mae poblogaeth wedi'i gynnwys i roi cyd-destun, yn seiliedig ar faint sefydliad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall pobl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigur poblogaeth wneud cwynion, er enghraifft, trigolion o'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol, neu bobl nad ydynt yn ddeiliaid contract. • Ar gyfer **awdurdodau lleol** , mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm amcangyfrifedig y bobl sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol. Mae'r ffigurau wedi'u cymryd o StatsCymru.[1] • Ar gyfer **cymdeithasau tai**, mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm y stoc ar rent cymdeithasol, a ddangosir mewn unedau. Mae hyn yn cynnwys stoc anghenion cyffredinol, stoc gwarchodedig, stoc â chymorth arall a stoc gofal ychwanegol gyda lletyau un ystafell nad ydynt yn hunangynhwysol, hosteli a thai a rennir. Mae'r ffigur hwn wedi'i gymryd o StatsCymru.[2] • Ar gyfer **byrddau iechyd** , mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm amcangyfrifedig y bobl sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd. Mae'r ffigurau wedi'u cymryd o StatsCymru.[3]

[1] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, blwyddyn, rhyw ac oedran | StatsCymru
[2] Stoc tai landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys tai cymdeithasol a thai nad sy'n rhai cymdeithasol …
[3] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl bwrdd iechyd lleol, blwyddyn, rhyw ac oedran | StatsCymru

Atodiad A – Cwynion a gafwyd (trosolwg)

	MAL			COD			Cyfanswm		
Awdurdod Lleol	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	24	67,873	0.35	2	67,873	0.03	26	67,873	0.38
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	68	147,530	0.46	18	147,530	0.12	86	147,530	0.58
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	79	176,865	0.45	5	176,865	0.03	84	176,865	0.47
Cyngor Caerdydd*	290	383,919	0.76	16	383,919	0.04	306	383,919	0.80
Cyngor Sir Gâr	109	190,800	0.57	7	190,800	0.04	116	190,800	0.61
Cyngor Sir Ceredigion	35	72,599	0.48	1	72,599	0.01	36	72,599	0.50
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	50	114,891	0.44	9	114,891	0.08	59	114,891	0.51
Cyngor Sir Ddinbych*	107	98,202	1.09	4	98,202	0.04	111	98,202	1.13
Cyngor Sir y Fflint	113	155,867	0.72	4	155,867	0.03	117	155,867	0.75
Cyngor Gwynedd	47	120,813	0.39	3	120,813	0.02	50	120,813	0.41
Cyngor Sir Ynys Môn	35	69,097	0.51	0	69,097	0.00	35	69,097	0.51
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*	23	58,972	0.39	2	58,972	0.03	25	58,972	0.42
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	37	94,930	0.39	6	94,930	0.06	43	94,930	0.45
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	54	143,249	0.38	11	143,249	0.08	65	143,249	0.45
Cyngor Dinas Casnewydd	74	167,899	0.44	2	167,899	0.01	76	167,899	0.45
Cyngor Sir Penfro	55	125,761	0.44	8	125,761	0.06	63	125,761	0.50
Cyngor Sir Powys	90	135,059	0.67	7	135,059	0.05	97	135,059	0.72
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf*	98	242,844	0.40	2	242,844	0.01	100	242,844	0.41
Cyngor Abertawe	152	251,304	0.60	11	251,304	0.04	163	251,304	0.65
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	15	94,119	0.16	1	94,119	0.01	16	94,119	0.17

Cyngor Bro Morgannwg	79	135,743	0.58	8	135,743	0.06	87	135,743	0.64
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	70	138,245	0.51	9	138,245	0.07	79	138,245	0.57
Cyfanswm	**1,704**	**3,186,581**	**0.53**	**136**	**3,186,581**	**0.04**	**1,840**	**3,186,581**	**0.58**

*yn cynnwys 11 Rhentu Doeth Cymru

*yn cynnwys 3 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

*yn cynnwys 3 Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

*yn cynnwys 3 Grŵp Parcio De Cymru

Atodiad B – Cwynion a gafwyd (yn ôl sefydliad)

Cyngor Gwynedd	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	2	4%
Amaethyddiaeth a physgodfeydd	0	
Gweinyddu Budd-daliadau	0	
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	4	9%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	1	2%
Ymdrin â Chwynion	5	11%
Covid19	0	
Addysg	3	6%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	3	6%
Cyllid a Threthiant	6	13%
Iechyd	0	
Tai	6	13%
Trwyddedu	2	4%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	9	19%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	2	4%
Darparwr Gofal sy'n Hunan-gyllido	1	2%
Amrywiol Eraill	3	6%
Cyfanswm	**47**	

Atodiad C – Achosion lle ymyrrodd OGCC (trosolwg)

Awdurdod Lleol	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	0	24	0%
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	3	67	4%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	13	83	16%
Cyngor Caerdydd*	52	304	17%
Cyngor Sir Gâr	9	106	8%
Cyngor Sir Ceredigion	3	33	9%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1	48	2%
Cyngor Sir Ddinbych*	5	105	5%
Cyngor Sir y Fflint	11	108	10%
Cyngor Gwynedd	7	49	14%
Cyngor Sir Ynys Môn	4	36	11%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*	0	23	0%
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	4	36	11%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	7	60	12%
Cyngor Dinas Casnewydd	3	71	4%
Cyngor Sir Penfro	2	55	4%
Cyngor Sir Powys	8	84	10%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf*	4	97	4%
Cyngor Abertawe	10	151	7%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1	17	6%
Cyngor Bro Morgannwg	6	78	8%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	4	72	6%
Cyfanswm	**157**	**1707**	**9%**

*yn cynnwys 11 Rhentu Doeth Cymru
*yn cynnwys 3 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru
*yn cynnwys 2 Panel Heddlu a Throseddu De Cymru
*yn cynnwys 3 Grŵp Parcio De Cymru

Atodiad D – Canlyniadau cwynion (fesul sefydliad)

Cyngor Gwynedd		**% rhannu**
Rhoddwyd gorau i'r ymchwiliad i'r gŵyn (gyda datrysiad cynnar yn ystod y camau asesu)	0	
Rhoddwyd y gorau i ymchwilio'r gŵyn (heb setliad)	0	
Penderfynu peidio ymchwilio cwyn	26	53%
Datrys yn gynnar	6	12%
Mater tu hwnt i awdurdodaeth	6	12%
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau	0	
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu	0	
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau	0	
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau a'i datrys yn gynnar yn y cam asesu	0	
Cynamserol	10	20%
Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi ei chadarnhau	0	
Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu	0	
Adroddiad Budd Arbennig	0	
Setliadau gwirfoddol	1	2%
Cyfanswm	**49**	

Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

Awdurdod Lleol	Nifer yr amgymhellion a wnaed ar gwynion y caewyd yn 2025-26	Nifer yr amgymhellion sy'n ddyledus yn 2025-26	% yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â dyddiad targed cytûn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	0	0	n/a
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	10	10	70%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	34	29	41%
Cyngor Caerdydd	164	136	85%
Cyngor Sir Caerfyrddin	23	15	47%
Cyngor Sir Ceredigion	10	10	80%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1	1	100%
Cyngor Sir Ddinbych	11	10	50%
Cyngor Sir y Fflint	38	39	49%
Cyngor Gwynedd	17	17	94%
Cyngor Sir Ynys Môn	7	7	100%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	0	0	n/a
Cyngor Sir Fynwy	8	6	83%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	13	13	69%
Cyngor Dinas Casnewydd	6	10	60%
Cyngor Sir Penfro	4	7	43%
Cyngor Sir Powys	18	15	53%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	13	12	50%

Cyngor Abertawe	45	40	90%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	3	2	100%
Cyngor Bro Morgannwg	18	17	76%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	10	13	92%

Atodiad F – Cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd

Cyngor Gwynedd	
Cod Ymddygiad heb ei weithredu	0
Taflen Cod Ymddygiad wedi'i hanfon/dolen i'r wefan wedi'i darparu	0
Gafwyd y gŵyn dros y ffôn - yn aros am lofnod	0
Tynnwyd y gŵyn ôl	0
Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn	0
Cŵynddyblyg heb dystiolaeth newydd	0
Gwybodaeth a ddarparwyd	0
Dim angen gweithredu	1
Dim datganiad y derbyniwyd - tynnwyd yn ôl	0
Dim tystiolaeth o esgeulustod	0
Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod	1
Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio	1
Tu hwnt i awdurdodaeth - cyfeirio	0
Cynamserol - Cyfeiriwyd ar gyfer datrysiad lleol	0
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru	1
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau	0
Tynnwyd yn ôl	0
Cyfanswm	4

Atodiad G - Cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol

	Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r Cod		Ymchwiliadau					
Cyngor Gwynedd	**Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio**	**Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod**	**Rhoddwyd gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn**	**Dim angen gweithredu**	**Dim tystiolaeth o dorri'r Cod**	**Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru**	**Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau**	**Cyfanswm**
Cyngor Cymuned Aberdaron	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Aberdyfi	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Abergwyngregyn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Arthog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Dinas Bangor	0	1	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Tref Bermo	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Bermo	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Beddgelert	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Betws Garmon	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Bontnewydd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Botwnnog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Bryncrug	1	0	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Buan	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Caernarfon	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Beddgelert	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Corris	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Cricieth	0	0	0	0	0	0	0	0

Cyngor Cymuned Dolbenmaen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Tref Dolgellau	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont	0	2	0	0	0	0	0	2
Cyngor Cynuned Tref Ffestiniog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Ganllwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Tref Harlech	0	1	0	1	0	0	0	2
Cyngor Cynuned Llanaelhaearn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanbedr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanbedrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanberis	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanddeiniolen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandderfel	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandwrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandygai	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanegryn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanelltyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanengan	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfair	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pennant	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfrothen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llangelynnin	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llangywer	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanllechid	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanllyfni	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llannor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanrug	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn	0	0	0	0	0	0	0	0

Cyngor Cymuned Llanwnda	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanycil	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanystumdwy	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Maentwrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Mawddwy	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Nefyn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Pennal	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Penrhyndeudraeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Pentir	0	0	0	0	1	0	0	1
Cyngor Cymuned Pistyll	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Porthmadog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Tref Pwllheli	0	1	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Talsarnau	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Trawsfynydd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tudweiliog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Tref Tywyn	0	3	0	3	0	0	0	6
Cyngor Cymuned Waunfawr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Y Bala	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Y Felinheli	0	0	0	0	0	0	0	0